Newyddlen Rhaglen Moderneiddio Addysg - Mawrth 2011

Ymgynghoriad ar 'Ffedereiddio Ysgol Bryn Clwyd ac Ysgol Gellifor'

Ers Medi 2010, mae Ysgol Bryn Clwyd, Llandyrnog ac Ysgol Gellifor wedi bod yn rhan o beilot rhannu prifathrawiaeth gyda Mrs Sue Roberts yn brifathro ar y ddwy ysgol.

Fe gynhaliwyd nifer o gyfarfodydd efo rhieni yn y ddwy ysgol i drafod sut yr oedd y peilot yn dod yn ei flaen. Mae'r adborth a dderbyniwyd gan rieni yn y cyfarfodydd hyn wedi bod yn bositif iawn.

Mae'r llywodraethwyr yn y ddwy ysgol wedi bod yn ystyried y ffordd ymlaen gan fod y trefniadau presennol yn rhai dros dro tan ddiwedd y flwyddyn ysgol. Ar ddydd Mercher, Mawrth 9fed fe gytunodd y ddau Gorff Llywodraethol i gyhoeddi cynnig i ffedereiddio.

Byddai'r cynnig yn golygu ffurfioli'r trefniadau presennol gyda Mrs Sue Roberts yn dod yn brifathro'r ffederasiwn. Yr unig newid mawr fydd, yn hytrach na dau Gorff Llywodraethol, fe fydd yna Gorff Llywodraethol newydd ar y cyd wedi ei sefydlu a hynny o Fedi 2011.

Cred llywodraethwyr y ddwy ysgol fod hyn yn gyfle ffantastig i ffurfioli'r trefniadau cydweithredol rhwng y ddwy ysgol a dod yn ffederasiwn gyntaf Sir Ddinbych dan y rheoliadau newydd. Mae'r cyfnod ymgynghori'n dechrau ar ddydd Mercher, Mawrth 16eg ac fe ddaw i ben ar ddydd Gwener, Mai 6ed. Ar ddiwedd y cyfnod hwn bydd llywodraethwyr y ddwy ysgol yn cyfarfod i ystyried yr ymatebion ac i wneud y penderfyniad terfynol.

Adolygiad Ardal Edeirnion

Fe ddaeth yr Ymgynghoriad Cychwynnol ar 'Adolygiad darpariaeth ysgolion cynradd yn Ardal Edeirnion' i ben ar Fawrth 10fed 2011. Mae'r Cyngor am ddiolch i'r penaethiaid, llywodraethwyr a'r cymunedau lleol am weithio hefo ni a chyfrannu yn bositif I'r ymgynghoriad cychwynnol.

Mae swyddogion Cyngor Sir Ddinbych yn awr yn ystyried pob un o ymatebion yr ymgynghoriad a'r holl ddata sydd ar gael er mwyn datblygu argymhellion penodedig i'w cyflwyno i Gabinet Sir Ddinbych ar Fai 24ain 2011.

Yng nghyfarfod y Cabinet ar Fai 24ain, bydd Aelodau'n ystyried yr argymhellion ac yn penderfynu pa un ai i:-

- Gymeradwyo cychwyn ymgynghoriad ffurfiol yn seiliedig ar yr argymhellion
- Cymeradwyo cychwyn ymgynghoriad ffurfiol yn seiliedig ar gynigion gwahanol
- Gwrthod yr argymhellion

Pe bai i'r Cabinet gymeradwyo cychwyn ymgynghoriad ffurfiol byddai hynny'n digwydd yn ystod Tymor yr Haf 2011.

Prosiect Ysgol Bryn Collen / Gwernant

Mae gwaith wedi dechrau ers diwedd Tachwedd 2010 ar safle Ysgol Bryn Collen / Ysgol y Gwernant sy'n cael ei rannu yn Llangollen lle bydd Cyngor Sir Ddinbych yn buddsoddi £700,000 i ymestyn ac ailwampio ardaloedd ar y safle presennol.

Hyd yma mae'r gwaith wedi dod ymlaen yn dda ar Gam 1 – Adeiladu Newydd Ysgol y Gwernant a Cham 2 – Estyniad Newydd i Ysgol Bryn Collen. Dylai'r camau hyn fod wedi eu cwblhau erbyn dechrau Mehefin 2011 cyn cychwyn ar y Cam 3 terfynol – Ailwampiad Ysgol Y Gwernant sydd i'w gwblhau ddiwedd Awst 2011.

Diweddariad ar Ysgol Dyffryn Iâl

Fe gwblhawyd astudiaeth ddichonolrwydd ac mae tîm dylunio wedi dechrau llunio rhai opsiynau posibl ynghylch estyniad i gefn Neuadd Goffa Llandegla. Bydd grŵp ymgynghorol rhanddeiliaid yn cyfarfod bob mis i gadw llygad ar ddatblygiadau a chynnydd. Disgwylir y bydd opsiwn dewisol o ran dyluniad yn ymddangos yn y dyfodol agos.

Diweddariad ar Gyfuniad Bodnant

Mae cyfuniad Babanod Bodnant a Phlant Iau Bodnant yn mynd rhagddo ac o Ionawr 1af 2012 bydd yn bod fel ysgol gynradd sengl ar ddau safle. Mae Corff Llywodraethol Dros Dro wedi ei sefydlu i arolygu'r broses hon ac mae wedi cychwyn y broses o recriwtio Prifathro ac ystyried ystod o faterion sydd angen sylw cyn diwedd y flwyddyn.

Cafodd cais am gyllid cyfalaf i symud yr ysgol i safle sengl ei gynnwys yn argymhellion Band A Sir Ddinbych ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21g.

Diweddariad ar Arian Tranche 3

Fe hysbyswyd y Cyngor ym mis Gorffennaf 2010 o ddyfarniad y cyllid cyfalaf sy'n werth hyd at £3m gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (i'w gyfateb ag £1.3m o adnoddau'r Cyngor) i gynorthwyo gydag ehangu darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Sir Ddinbych. Ond ym Mawrth 2011 fe gyhoeddwyd fod yr arian gan y Cynulliad wedi ei ohirio o 2011-12 i 2012-13 o ganlyniad i Adolygiad Gwario Llywodraeth y DU. Mae'r Cyngor yn ceisio trafodaethau brys gyda'r Cynulliad ynglŷn ag oblygiadau'r penderfyniad yma.

Diweddariad ar Raglen Ysgolion yr 21g

Fe gyflwynodd y Cyngor ei Raglen Amlinellol Strategol ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21g i'r Cynulliad ar Ragfyr 10fed 2010. Mae'r rhaglenni ar gyfer pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd gan swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Disgwylir datganiad gan weinidog ym mis Mehefin/Gorffennaf.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i:

www.sirddinbych.gov.uk/modernisingeducation